**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Mai 2012**

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

1. Ar 28 Mai 2012, cafodd Bil Llywodraeth, 'Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 15 Mai 2012, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 16 Hydref 2012.

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 23 Tachwedd 2012, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.